PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn trwy cyfrwng fideo, Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts (Cadeirydd), Pete Prendergast, Peter Scott ac Andrew Thomas

Aelodau'r Cabinet – Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth) a Huw Hilditch-Roberts, (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Arsylwr – y Cynghorydd Meirick Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG); Prif Reolwr, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (AL), Prif Reolwr, Addysg a Gwasanaethau Plant (JW), Cydlynydd Craffu (RE) a Swyddogion Pwyllgor (KEJ a SLW [Gweddarlledydd])

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Geraint Lloyd-Williams a David Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen -

Cynghorydd Arwel Roberts - Cadeirydd Grŵp Dementia Rhuddlan

Cynghorydd Paul Penlington – Ymddiriedolwr a Gwirfoddolwr gydag elusen Gofalwyr Ifanc ac mae ei wraig yn gweithio i elusen Gofalwyr Ifanc sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021.

Materion yn Codi –

Eitem 7 – Yr wybodaeth ddiweddaraf am Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (tudalen 10, pedwerydd pwynt bwled) – cadarnhawyd fod y broblem ynghylch llai o adnoddau ar gael i gynnal asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn broblem genedlaethol sy'n cael ei dwyn i sylw Llywodraeth Cymru yn rheolaidd a sonnir am y mater hefyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg nesaf yr ymgynghorir yn ei gylch dros y misoedd nesaf.

Eitem 8 - Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021 (tudalen 13, ail bwynt bwled) - cadarnhaodd y Cynghorydd Paul Penlington ei fod wedi derbyn y dolenni perthnasol i weld yr wybodaeth y gofynnodd amdani yn y cyfarfod diwethaf ynghylch manylion costau'n ymwneud â Phriffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol ac Addysg a Gwasanaethau Plant.

PENDERFYNWYD *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.*

5 ADRODDIADAU BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019 – 2020 A 2020 - 2021

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn cyflwyno'r adroddiadau blynyddol drafft ar gyfer 2019 – 2020 a 2020 – 21 i'r Pwyllgor ar gyfer craffu cyn eu cyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru. Esboniwyd y rhesymau dros gyflwyno'r ddau adroddiad gan gofio bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r angen i lunio adroddiad blynyddol ym Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Cyfeiriodd y Cynghorydd Feeley at y rôl arweiniol yr ymgymerodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol â hi yn ystod y pandemig ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan barhau hefyd gyda'r gwaith arferol, a hynny'n aml iawn dan bwysau ariannol. Dangosai'r adroddiadau fod llawer wedi ei gyflawni o dan amgylchiadau hynod o anodd a gwelwyd cynnydd a gwelliannau mewn nifer o feysydd. Er mai prif gyfrifoldeb y Cynghorydd Feeley yw Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, gwyddai fod gwasanaethau cyfun Addysg a Gwasanaethau Plant hefyd wedi darparu'r un gwasanaethau o ansawdd da i blant bregus. Roedd hi'n falch o allu bod yn rhan o lansiad canolfan blant newydd arloesol Bwthyn y Ddol. Roedd yr adroddiadau blynyddol yn adlewyrchu'n dda ar y timau sy'n gweithio ar draws y meysydd gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a thalwyd teyrnged i'r staff gwych ac ymroddedig sy'n gweithio'n ddiflino i gynnig y gwasanaethau gorau bosibl. Wrth gloi, dywedodd y Cynghorydd Feeley ei bod yn hyderus y byddai Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn parhau i addasu a gwella a darparu'r gofal sydd ei angen ar drigolion y sir.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i'r holl gynghorwyr am eu cefnogaeth barhaus i wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddai angen llunio adroddiad ar gyfer 2019 – 20, teimlwyd y dylid bod yn gyfredol a llunio'r adroddiad hwnnw, er mwyn dangos hefyd yr hyn a gyflawnwyd yn ystod cyfnod hynod o anodd nas gwelwyd ei debyg o'r blaen. Talodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol deyrnged i'r gweithlu gan gynnwys

gofalwyr anffurfiol, gofalwyr maeth a'r rhai a fu'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol, ac i bawb a fu'n cynorthwyo. Ni ellid adleoli pawb i weithio ar y rheng flaen ond gwnaeth pobl o bob rhan o'r awdurdod ac ar draws cymunedau fanteisio ar y cyfle i gynorthwyo mewn ffyrdd eraill a gwneud gwaith er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn falch o gyflwyno'r adroddiadau i'r aelodau gan bwysleisio cymaint a gyflawnwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chadarnhaoedd y byddai datblygiadau i'w gweld yn y meysydd gwaith hynny nad oedd wedi datblygu yn ôl y disgwyl. Roedd hi'n werth nodi bod staff ar hyn o bryd yn ymdrin â chynnydd mewn achosion a throsglwyddiadau Covid-19 yn y gymuned ac mewn lleoliadau gofal. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn croesawu'r gwaith craffu roedd yr aelodau'n ei wneud ar yr adroddiadau ac esboniodd fod y Prif Reolwyr Ann Lloyd a James Wood hefyd yn bresennol i ateb cwestiynau.

Yn ystod trafodaeth hir, gwnaeth y Pwyllgor dalu teyrnged i'r ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangoswyd gan bawb yn y maes gofal cymdeithasol wrth iddyn nhw weithio'n ddiflino o dan amgylchiadau hynod o anodd, ac i'r rhai sy'n parhau i wneud hynny, gan fynd y filltir ychwanegol er mwyn gofalu am y rhai mwyaf anghenus. Manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod gwahanol agweddau ar yr adroddiadau gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yr Aelodau Arweiniol a'r swyddogion a oedd yn bresennol.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

- roedd yr adroddiad yn dilyn y fformat a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru ac er y derbyniwyd nad oedd yr adroddiad yn rhoi llawer o fanylion, ceir nifer helaeth o wasanaethau ar draws Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion ac mae angen cydbwysedd o ran lefel yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn hygyrch i'r cyhoedd – croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol unrhyw destunau penodol sy'n codi o'r adroddiad y soniodd yr aelodau y dylid craffu arnyn nhw yn y dyfodol
- Comisiynodd awdurdodau lleol Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych wasanaeth cefnogi gan Credu - Gofalwyr Ifanc WCD sy'n darparu'r elfen fwyaf o gefnogaeth ac mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau yn ystod y gwyliau, teithiau a digwyddiadau; er bod Covid-19 wedi effeithio ar y teithiau hynny, bydden nhw'n ailddechrau pan fo hynny'n bosibl a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd dros y we yn ystod y cyfnod.
  Cyfeiriwyd hefyd at y Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd a gwaith estyn allan a wneir gydag ysgolion i ganfod gofalwyr ifanc nad ydyn nhw o bosibl wedi cael eu cyfeirio gan deuluoedd/asiantaethau eraill i gael cefnogaeth. Cytunodd y swyddogion y bydden nhw'n rhoi mwy o fanylion am y mater hwnnw i'r Cynghorydd Paul Penlington y tu allan i'r cyfarfod.
- roedd dyfodiad Covid-19 wedi cyflymu'r cynlluniau i ddefnyddio atebion digidol i gefnogi ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau a arweiniodd at welliannau sylweddol.
  Mae defnyddio technoleg wedi bod yn fanteisiol iawn i rai pobl gan ei fod yn cyd-fynd yn well â'u hanghenion. Mae enghreifftiau o'r ffyrdd newydd o weithio ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a Phlant wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac mae'n faes a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu. Er bod y ffyrdd newydd o

weithio wedi cael eu croesawu ar y cyfan, mae'n amlwg nad yw'r dulliau digidol hyn yn addas i bawb.

- rhoddwyd ychydig o gefndir ynghylch llwybr y blynyddoedd cynnar sy'n gynllun gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r camau a gymerwyd yn Sir Ddinbych i integreiddio elfennau o fewn cylch gwaith mewnol yr awdurdod lleol tra bydd Addysg a Gwasanaethau Plant yn uno i sicrhau cyfnod pontio llyfn ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth, gan gynnwys Dechrau'n Deg.
  Mae mwy o waith yn cael ei wneud am hyn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar lefel ranbarthol i rannu gwybodaeth ac arfer orau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Ellie Chard at Raglen Dechrau'n Deg ac awgrymodd y gellid gwahodd rhieni i dreulio amser yn yr ysgol gyda'u plant er mwyn eu helpu i ddysgu drwy chwarae a datblygu mwy ar eu sgiliau iaith, llythrennedd a chymdeithasol. Croesawodd y Cadeirydd yr awgrym hwn.
- cytunodd y swyddogion gydag awgrym y Cynghorydd Martyn Holland y dylid cynnwys rhestr termau/mynegai yn yr adroddiad o'r termau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol brosiectau/dulliau gweithredu ayb.
- er bod elfen fach o ailgofrestru plant ar y gofrestr amddiffyn plant bob amser, mae'n anodd gwybod a oedd y cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i Covid-19 neu beidio, a bydd angen edrych ar amgylchiadau'r teuluoedd unigol er mwyn penderfynu beth oedd y rheswm.
  O ran atgyfeiriadau diogelu, nid yw Sir Ddinbych wedi gweld lefel yr atgyfeiriadau'n cynyddu ar yr un gyfradd ag awdurdodau lleol eraill, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ar ddechrau'r pandemig i nodi'r plant bregus a llunio cynlluniau i'w cefnogi. Hwyluswyd y gwaith hwn drwy uno'r adrannau Addysg a Gwasanaethau Plant.
- esboniwyd bod ap *Mind of My Own* yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu er mwyn clywed barn pobl ifanc am eu gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n ei chael, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan tua 130 o bobl ifanc yn rheolaidd.
  Aethpwyd ati i ganfod plant nad oedd o bosibl â mynediad at dechnoleg ddigidol ac mae cyllid hefyd ar gael at y diben hwnnw.
- oherwydd y pandemig, daeth y Cyngor yn ymwybodol o ofalwyr na wydden nhw amdanyn nhw o'r blaen, a daeth unigolion i ofyn am gymorth, ac aeth y gwaith gyda phartneriaid yn ei flaen i annog mwy o ofalwyr i fanteisio ar y gefnogaeth a defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael.
  Er hyn, nid oedd rhai unigolion yn ystyried eu hunain yn ofalwyr ac mae'n debyg fod yna boblogaeth gudd o ofalwyr yn Sir Ddinbych sydd heb gyflwyno eu hunain. Parhaodd y gwaith gyda gofalwyr yn ystod y pandemig a dyma un o'r meysydd lle gwelwyd cynnydd dros y deunaw mis diwethaf
- mae gofal cymdeithasol wedi bod o dan bwysau ariannol cynyddol, fel sy'n wir am holl wasanaethau llywodraeth leol, ond mae gofyn i'r Cyngor ddarparu cyllideb gytbwys a dod i benderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau.
  Cafodd cyllid ychwanegol ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf ond gellid gwneud mwy gyda mwy o arian. Bu gofyn i bob adran wneud arbedion effeithlonrwydd ac yn yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant, roedd yr arbedion hynny'n briodol ac fe'u gosodwyd yn erbyn buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cynaliadwy a ffyrdd newydd o weithio a'r gobaith yw y daw hynny â mwy o arbedion effeithlonrwydd dros amser. Gwnaed defnydd mawr o arian grant a chyllid partneriaeth drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd, a'r her o ymdrin â

chyllid sydd â chyfyngiad amser arno, a'r angen i lunio strategaethau ymadael a nodi sut y gallai cyllid craidd gefnogi'r cynlluniau hynny wrth symud ymlaen.

- cyfeiriwyd yn yr adroddiad at y ffaith fod staff yn cael eu hymestyn i'r eithaf ac ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y pwysau eithriadol mae Covid-19 wedi ei osod ar staff, yr effaith ar lefelau salwch a darparu cymorth ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnyn nhw, a chyfeiriodd at gydweithwyr a phreswylwyr a gollwyd yn ystod y cyfnod hwnnw
- roedd pedwar Tîm Adnoddau Cymunedol wedi eu lleoli ym Mhrestatyn, Y Rhyl, Dinbych a Rhuthun i gyd-fynd â chlystyrau meddygon teulu a gwasanaethau iechyd ac er eu bod wedi eu lleoli yn y pedwar man hynny, roedd eu gwasanaethau'n estyn allan dros y sir gyfan.
  Roedd y Timau Adnoddau Cymunedol yn cynnwys staff yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd er mwyn darparu cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddi-dor mewn cymunedau ym mhob rhan o'r sir
- Bu Addysg a Gwasanaethau Plant yn cydweithio i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at offer TG, serch hynny, roedd cryn oedi gyda'r cyflenwad oherwydd y galw uchel ac ni dderbyniwyd rhai archebion hyd heddiw.
  Ystyriwyd amgylchiadau teuluoedd yn ofalus fel rhan o'r broses honno a chafwyd nifer fechan o achosion lle na ddarparwyd offer ar ôl nodi'r risgiau a chynigiwyd dulliau cefnogi eraill. Soniodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am ffyrdd arloesol o sicrhau mynediad digidol at Google Classroom drwy X-box a PlayStation ac ychwanegodd fod pob plentyn/cartref a ofynnodd amdano wedi cael mynediad digidol. Sicrhawyd cysylltiad rheolaidd a pharhaus gyda phlant a ystyriwyd yn fregus ac roedd hynny wedi golygu bod llai o atgyfeiriadau diogelu wedi eu gwneud o'i gymharu â chynnydd mewn awdurdodau lleol eraill.
- gweithiodd yr Un Pwynt Mynediad yn hynod o dda yn ystod y pandemig a dylid ei ganmol. Rhoddwyd canmoliaeth hefyd i staff a ymgymerodd â gwaith gwirfoddol, yn ogystal â llawer o grwpiau gwirfoddol.
- roedd yr anhawster i recriwtio a chadw staff gofal yn broblem genedlaethol ac mae Sir Ddinbych yn parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio er mwyn denu staff newydd.
  Roedd problemau'n parhau ynglŷn â chyflogau teg, a thelerau ac amodau, a chyfeiriwyd at gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â'r broblem. Mae Sir Ddinbych yn ymwneud â datblygu Strategaeth Genedlaethol i'r Gweithlu ym maes gofal cymdeithasol yn ogystal ag ymgyrch sy'n bodoli ers peth amser gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn rhan o Weithgor Gofal Teg y Gweinidogion sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr undebau a chynrychiolwyr cyflogwyr ar degwch ym maes gofal cymdeithasol. Rhoddwyd mwy o fanylion am y broses adleoli a welwyd yn ystod Covid-19, pan symudwyd staff i waith gofal ar y rheng flaen a swyddi eraill, ac ar brydiau gwnaeth rheolwyr oedd â phrofiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol ymgymryd â swyddi ar y rheng flaen mewn cartrefi gofal pan oedd prinder. Gwnaed yr holl waith hwnnw ar ewyllys da ac roedd gallu'r staff i gefnogi'r trigolion mwyaf bregus pan oedd angen gwneud hynny'n wirioneddol wych.
- rhoddwyd mwy o fanylion am ddatblygiad Bwthyn y Ddol mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle rhoddir cymorth preswyl byrdymor i blant a phobl ifanc yn lleol.
  Mae tîm amlddisgyblaethol yn cynnig dulliau ymyrryd pwrpasol dan arweiniad timau clinigol ar gyfer achosion risg uchel cymhleth, gan ychwanegu at y gwaith

ataliol yn y rhanbarth. Cyfeiriwyd hefyd at weinyddiaeth bosibl y cwmni a gyflogwyd i adeiladu'r cyfleuster ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr o'r adrannau cyfreithiol a chaffael ynghylch y ffordd orau i symud y prosiect yn ei flaen. Teimlai'r Cynghorydd Meirick Davies y dylai'r aelodau fod wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfa'n gynharach ac esboniodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y materion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r mater ond cadarnhaodd y byddai'n rhannu unrhyw wybodaeth newydd gyda'r aelodau, yn ogystal â rhoi gwybod iddyn nhw pan fyddai'r sefyllfa'n fwy eglur.

- bu'r pandemig yn eithriadol o anodd i oedolion ag anableddau gan nad oedd rhai o wasanaethau'r cyngor ar gael oherwydd rheolau a chyfyngiadau'n ymwneud â Covid-19, a oedd hefyd yn cynnwys y rhan fwyaf o gynlluniau cyfleoedd gwaith.

  Cafwyd cadarnhad gan y Tîm Anableddau Cymhleth fod y defnyddwyr gwasanaeth a oedd angen cefnogaeth wedi parhau i'w derbyn drwy gydol y cyfnod a chadwyd cysylltiad drwy'r cyfan. O ran cyfleoedd gwaith, aeth tîm bach 'Canfod Swyddi' ati i ganfod lleoliadau gwaith a swyddi ar gyfer pobl anabl ynghyd â chanfod cyfleoedd o fewn y cyngor. Bu trafodaethau gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf. ynghylch cyfleoedd i gynnig lleoliadau gwaith am dâl ac mae gwaith hefyd yn parhau gyda Sir Ddinbych yn Gweithio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ailddechrau rhai o'r cyfleoedd gwaith wrth i sefyllfa Covid-19 ganiatáu hynny. Cyfeiriwyd at yr adolygiad o gyfleoedd gwaith sy'n cynnwys Meifod (Cynnyrch Pren) yn Ninbych a bydd proses ymgynghori'n dechrau yn ei gylch yn fuan. Bydd nodyn briffio'n cael ei baratoi am hynny a bydd yn cael ei rannu'n fuan er mwyn esbonio'r sefyllfa a'r gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth. O ran llety ar gyfer oedolion ag anableddau, roedd rhai wedi eu hadeiladu'n bwrpasol ond gwnaed addasiadau hefyd i eiddo roedd unigolion yn byw ynddyn nhw'n barod
- gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion iechyd meddwl yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac yn y gymuned ffermio dros Gymru, a fu'n ganolbwynt ar gyfer nifer o brosiectau a gwaith a wnaed drwy'r rhanbarth ac ar draws yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac mewn sefydliadau eraill.

  Cynhyrchwyd llyfryn dwyieithog yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y gymuned ffermio ac sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynghylch y gefnogaeth a'r cyngor sydd ar gael ar gyfer materion iechyd meddwl a chyfeiriwyd pobl at wasanaethau eraill. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n rhoi copi o'r llyfryn i'r Cynghorydd Meirick Davies.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau gwerthfawr yn y gwaith craffu cynhwysfawr a wnaed ar yr adroddiadau blynyddol. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r staff am yr holl waith roedden nhw wedi ei wneud o dan amgylchiadau hynod o anodd, gan fynd i tu hwnt i'r holl ddisgwyliadau. Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus ac am werthfawrogi'r holl waith caled a wnaed a chytunodd y byddai'n dweud wrth y staff yn uniongyrchol pa mor ddiolchgar yw'r Pwyllgor am eu gwaith.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y sylwadau uchod a bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei darparu, y dylid cadarnhau bod yr adroddiadau'n rhoi darlun eglur o'r perfformiad yn 2019 – 2020 a 2020 – 21.*

Ar y pwynt hwn (11.40am) cymerodd y pwyllgor seibiant am egwyl luniaeth.

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r materion canlynol:-

- ni fydd yr adroddiadau a drefnwyd ynghylch Arholiadau Allanol ac Asesiadau Athrawon Dros Dro (Medi) ac Arholiadau Allanol wedi'u Gwirio (Ionawr) yn dod i law oherwydd diffyg data cymharol a data meincnodi.
  Wrth ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y gellid rhannu data arholiadau dros dro Sir Ddinbych gyda'r aelodau ond nad oes data cymharol ar gael o awdurdodau lleol eraill o ganlyniad i orchymyn gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, mae nifer o faterion yn ymwneud ag addysg y dylid craffu arnyn nhw'n ddiweddarach yn y flwyddyn
- cytunwyd y dylai cyfarfod mis Medi barhau gyda'r eitem yn ymwneud â Gofal Iechyd Cefndy ac os yw'n bosibl, dylid dwyn ymlaen yr adroddiad am System Rheolwyr Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) i'r cyfarfod hwnnw a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd.
  Teimlai'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r aelodau pe bai'r adroddiad yn dangos sut mae pob gwasanaeth unigol yn bwydo i'r system CRM a'r pwysigrwydd a'r manteision i bob unigolyn a gwasanaeth drwy ddilyn y drefn gywir. Cytunwyd y byddai'r Cydlynydd Craffu yn penderfynu a yw'r gwasanaeth mewn sefyllfa i baratoi'r adroddiad erbyn mis Medi a dylid hefyd cynnwys y materion a godwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts
- gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflenni cynigion ynghylch testunau i'w craffu (gan gynnwys unrhyw destunau sy'n codi o Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod) cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer Grŵp y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar 9 Medi.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y diwygiadau y cytunwyd arnyn nhw uchod, y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor fel y manylir amdani yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Esboniodd y Cynghorydd Hugh Irving wrth yr aelodau mai ef yw cynrychiolydd y Pwyllgor ar y grwpiau/fforymau canlynol -

- Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chymunedau (Her Gwasanaeth) – yn anffodus ni lwyddodd i fynychu'r cyfarfod am yr heriau gwasanaeth a gynhaliwyd ar 14 Mehefin
- Gwasanaethau Gwella Busnes a Moderneiddio (Her Gwasanaeth) – roedd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin yn cynnwys llawer o drafodaeth am Covid-

19 a’r gwaith adfer, a chytunwyd y byddai cofnodion y cyfarfod hwnnw'n cael eu rhannu gyda'r aelodau

- Bwrdd Prosiect Adeilad y Frenhines – mae’r Bwrdd yn cyfarfod bob pythefnos ar hyn o bryd er mwyn cadw llygad manwl ar y prosiect ac mae llawer o’r drafodaeth yn gyfrinachol ac ni ellir ei rhannu mewn cyfarfod cyhoeddus.
  Er bod y prosiect yn wynebu heriau, cadarnhawyd bod pawb yn gweithio er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Wrth ystyried y ffordd orau i symud ymlaen a sut i adrodd yn ôl wrth yr aelodau’n briodol, awgrymwyd y gallai’r prosiect fod yn destun ar gyfer craffu yn y dyfodol ac y dylai’r Cydlynydd Craffu ymdrin â’r mater a’r amserlenni ar gyfer craffu os credir bod hynny’n briodol.

Atgoffodd y Cynghorydd Peter Scott yr aelodau y bydd cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cael ei gynnal ar 26 Gorffennaf i ystyried gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ar yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Ellie Chard y byddai’n cynrychioli’r Pwyllgor yn yr Her Gwasanaeth ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant ar 19 Gorffennaf a chadarnhaodd y Cadeirydd y byddai’n cynrychioli’r Pwyllgor yn yr Her Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ar 19 Gorffennaf.

PENDERFYNWYD *y dylid derbyn a nodi'r adroddiadau ar lafar.*

Wrth gloi’r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am gyfrannu at y trafodaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm.